

# Swyddogaeth Graffu Cyngor Sir Caerfyrddin

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2022-23

# CYNNWYS

<b>Rhagair</b>	<b>3</b>
<b>Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin</b>	<b>4</b>
<b>Y Pwyllgorau Craffu</b>	
Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio	5
Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol	6
Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg	7
Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol	8
Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd	9
<b>Gweithgareddau Eraill yn ystod 2022/23</b>	
Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu	11
Sesiynau Datblygu Aelodau	11
Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth	12
Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Bae Abertawe	12
Rhwydwaith Rheolwyr Craffu Cymru	12
Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011	12
Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021	12
<b>Edrych i'r dyfodol - 2023/24</b>	<b>12</b>
<b>Gwella / Hunanasesu</b>	<b>14</b>
<b>Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu</b>	<b>14</b>
<b>Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn ystod 2022/23</b>	<b>16</b>

## Rhagair

Croeso i adroddiad craffu blynyddol eleni. Wrth inni symud ymlaen ar ôl Covid dros y flwyddyn ddiwethaf rydym yn dal i fod yn yr oes o gynnal cyfarfodydd hybrid. Mae'r gwaith craffu yn Sir Gaerfyrddin wedi parhau'n gryf ac wrth gwrs fe gawsom yr etholiadau lleol yn 2022. Yn dilyn yr etholiadau lleol cytunwyd i gysoni enwau'r pwyllgorau craffu a'r briffiau y maent yn eu cysgodi felly byddwch yn gweld newid ers yr adroddiad diwethaf oherwydd bydd pwyllgorau craffu wedi newid eu henwau. Gobeithiwn y bydd hyn yn ei gwneud yn haws i baru'r pwyllgor craffu â'r aelod cabinet a'r adran y maent yn craffu arni.

Fel y soniais yn gynharach roedd 2022 yn flwyddyn etholiad felly rydym wedi cael cynghorwyr o'r newydd ac mae hyfforddiant cynhwysfawr a llwybr datblygu ar gael i'w helpu i ddeall y rôl graffu'n well a sut y gallant chwarae eu rhan o ran hynny o beth. Cynhaliwyd yr hyfforddiant hwn mewn sesiynau o bell a sesiynau wyneb yn wyneb.

Hefyd yn ystod y llynedd cyflwynwyd y broses o graffu cyn gwneud penderfyniadau lle mae pwyllgorau craffu'n gweld gwaith arfaethedig y Cabinet ac yn gallu dylanwadu ar feysydd polisi neu ymyrryd cyn gwneud penderfyniadau terfynol. Yn dilyn y newidiadau hyn, dechreuwyd y broses graffu yn ystod yr hydref y llynedd, pan osododd yr holl bwyllgorau eu blaengynlluniau gwaith gan ddefnyddio'r system newydd hon. Byddwn yn adolygu effaith y newidiadau newydd hyn maes o law, ond mae angen inni ganiatáu amser iddynt ymsefydlu.

Fel crafwyr, rydym yn gobeithio ymgysylltu'n well â'n hetholwyr ac rwyf yn ailadrodd ein nod o gael mwy o bobl i wrando ar bwyllgorau craffu i weld sut rydym yn gweithio. Rydym hefyd yn dal i fod yn ymwybodol o argymhellion Archwilio Cymru a wnaed inni ychydig flynyddoedd yn ôl ac rydym wedi cymryd camau breision ymlaen wrth geisio gwella'r gwaith craffu yn Sir Gaerfyrddin.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i Uned Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor sy'n cefnogi ein gwaith craffu. Ni fyddem yn gallu gweithredu hebddynt.



Y Cynghorydd Giles Morgan  
Cadeirydd Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu  
Hyrwyddwr Craffu Cyngor Sir Gaerfyrddin

## Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin

Mae'r broses graffu yn chwarae rôl allweddol wrth wella'r gwasanaethau y mae pobl a phlant Sir Gaerfyrddin yn eu defnyddio. Mae'r rhan fwyaf o'r penderfyniadau yn cael eu gwneud gan y Cabinet o 10 Cynghorydd Sir. Mae'r broses graffu'n rhoi cyfle i'r 65 o gynghorwyr eraill ddylanwadu ar y penderfyniadau hynny a gweithredu fel 'cyfaill beirniadol'. Hefyd mae'r broses yn ddefnyddiol o ran sicrhau bod polisïau'r Cyngor yn adlewyrchu'r blaenoriaethau cyfredol, yn ogystal â hyrwyddo effeithlonrwydd ac yn annog cydweithio effeithiol â chyrrff allanol. Dyma brif rolau a chyfrifoldebau'r Pwyllgorau Craffu:-

- Archwilio pa mor dda y mae'r Cabinet a'r Cyngor yn perfformio;
- Dwyn y Cabinet i gyfrif a cheisio hyrwyddo proses benderfynu sy'n agored ac yn dryloyw;
- Monitro perfformiad gwasanaethau a swyddogaethau'r Cyngor;
- Adolygu penderfyniadau'r Cabinet lle bo hynny'n briodol;
- Cynorthwyo'r Cabinet i ddatblygu, monitro, ac adolygu polisïau;
- Craffu ar y strategaeth cyllideb refeniw a'r rhaglenni buddsoddiadau cyfalaf arfaethedig, a hynny fel rhan allweddol o'r broses ymgynghori;
- Galluogi sefydliadau a phartneriaid allanol i gyfrannu at y gwaith o ystyried materion a allai effeithio ar y modd y cyflawnir blaenoriaethau'r Cyngor a'r sir gyfan.

Gall pob Cynghorydd nad yw ar y Cabinet gael ei benodi ar o leiaf un Pwyllgor Craffu, gan ddibynnu ar ei ddi-ddordebau neu'i arbenigedd.

Mae gan Gyngor Sir Gaerfyrddin bum Pwyllgor Craffu:-

- Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio
- Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol
- Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg
- Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
- Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd

Fel rheol, mae'r pwyllgorau'n cyfarfod wyth gwaith y flwyddyn, bob chwe wythnos, i ystyried materion ac adroddiadau a gynhwysir mewn Blaengynllun Gwaith Craffu a lunnir ar ddechrau blwyddyn y cyngor. Trefnir cyfarfodydd ychwanegol o bryd i'w gilydd os bydd angen, ac weithiau cynhelir cyfarfodydd arbennig neu gyfarfodydd ar y cyd i ystyried materion brys neu faterion trawsbynciol.

Mae cyfansoddiad y Pwyllgorau Craffu yn wleidyddol gytbwys i adlewyrchu cyfansoddiad gwleidyddol y Cyngor cyfan, cyhyd ag y bo modd. Penodir Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor ar ddechrau pob blwyddyn cyngor a hynny am gyfnod o flwyddyn (e.e. Mai 2022 hyd nes Ebrill 2023). Maent hefyd yn cymryd rhan yn Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu sy'n cwrdd bob chwarter i oruchwylio cyfeiriad strategol y broses Graffu.

## Y Pwyllgorau Craffu

### Adroddiadau Monitro Craffu Safonol

Mae pob Pwyllgor Craffu yn cael yr adroddiadau monitro canlynol, yn ôl yr arfer, ac yn cytuno ar amlder a ffurf yr adroddiadau hyn:-

**Adroddiadau Monitro Perfformiad** – Un o brif rolau Pwyllgor Craffu yw monitro perfformiad y gwasanaethau a'r swyddogaethau sydd o fewn ei faes gorchwyl. Maent yn gwneud y gwaith hwn yn bennaf drwy ystyried adroddiadau monitro perfformiad chwe-misol, sy'n rhoi darlun cytbwys o berfformiad. Yn ogystal, mae'r Pwyllgorau'n cael cynlluniau busnes a gwybodaeth ynghylch monitro canmoliaeth a chwynion.

**Adroddiadau Monitro'r Gyllideb Refeniw a'r Gyllideb Gyfalaf** – Mae pob Pwyllgor Craffu yn cael adroddiadau chwe-misol ynghylch cyllidebau cyfalaf a refeniw'r gwasanaethau sydd o fewn eu maes gorchwyl.

**Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gamau Gweithredu ac Atgyfeiriadau** – Yn ystod blwyddyn y cyngor, mae aelodau'r pwyllgorau craffu yn gwneud nifer o geisiadau am eitemau ychwanegol i'w helpu i gyflawni'u rôl graffu. Caiff Adroddiadau Chwarterol ac Adroddiadau Atgyfeirio eu llunio i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd ar sail y camau gweithredu y gofynnir amdanynt a'r argymhellion.

### Meysydd gorchwyl

Diweddarwyd meysydd gorchwyl y Pwyllgorau Craffu gan y Cyngor yn dilyn yr etholiadau ym mis Mai 2022 a daeth pob Pwyllgor Craffu yn gyfrifol am graffu ar Bortffolios Penodol y Cabinet a'u meysydd gwasanaeth perthnasol yn hytrach na meysydd gwasanaeth unigol a chael trosolwg ohonynt.

## Y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio

Mae gan y Pwyllgor Craffu Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio 13 o Aelodau ac mae'n gyfrifol am graffu ar y Cabinet ac, yn benodol, ar Bortffolios canlynol y Cabinet a'u priod feysydd gwasanaeth:-

- [Cartrefi \(heb gynnwys elfen y Dirprwy Arweinydd\)](#)
- [Materion Gwledig, Cydlyniant Cymunedol a Pholisi Cynllunio](#)
- [Adfywio, Hamdden, Diwylliant a Thwristiaeth](#)

**Cyfarfodydd y Pwyllgor** – Yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23, cynhaliodd y Pwyllgor 7 cyfarfod ffurfiol yn ogystal ag adroddiadau monitro rheolaidd, a bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys:-

- Y Strategaeth Hamdden, Diwylliant a Hamdden Awyr Agored;
- Strategaeth Arloesi Lleol;
- Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2023/24;
- Cynllun Busnes 2022/25 y Cyfrif Refeniw Tai;

- Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26;
- Adroddiad Grŵp Gorchwyl a Gorffen - Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys;
- Strategaeth Rhaglen Cymorth Tai 2022-26;
- Cynllun Pontio Ailgartrefu Cyflym 2022-27;
- Polisi Tai Gwag;
- Polisi Digolledu Tenantiaid;
- Polisi Adennill Costau Am Waith Atgyweirio;
- Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Drafft 2023-24;
- Cronfa Ffyniant Gyffredin - Mynd i'r afael â Threfi;
- Adroddiad Diweddarau - Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys Ynghylch Rhoi'r Polisi Dyrannu Newydd Ar Waith.

Yn ogystal â'r adroddiadau a ystyriwyd yn y cyfarfodydd ffurfiol, dosbarthwyd adroddiadau diweddarau a gwybodaeth i'r Pwyllgor drwy e-bost, yn unol â chais y Pwyllgor.

**Adolygiad Gorchwyl a Gorffen** – Cynhaliodd y Pwyllgor Adolygiad Gorchwyl a Gorffen ar ddatblygu Polisi Dyrannu Tai Cymdeithasol Brys yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23.

**Ymweliadau Safle** – Er bod nifer o ymweliadau safle wedi'u cynnwys ym Mlaengynllun Gwaith y Pwyllgor, nid oedd y Pwyllgor wedi gallu bwrw ymlaen â'r rhain oherwydd effaith barhaus Covid-19.

**Sesiynau Datblygu** – Cynhaliodd y Pwyllgor un sesiwn ddatblygu benodol i'r gwasanaeth yn ystod 2022/23 ynghylch y Fersiwn Drafft o'r Strategaeth Hamdden er mwyn llywio'i ddatblygiad cyn i'r Cyngor ei ystyried. Hefyd gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i fynychu sesiynau datblygu a drefnwyd ar gyfer yr holl aelodau, a gellir dod o hyd i'r manylion ar dudalen 11.

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar gyllideb refeniw 2022/23 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

## Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol

Mae gan y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol 13 o aelodau ac mae'n gyfrifol am graffu ar y Cabinet ac, yn benodol, ar Bortffolios canlynol y Cabinet a'u priod feysydd gwasanaeth:-

- [Arweinydd](#)
- [Dirprwy Arweinydd \(heb gynnwys Cartrefi\)](#)
- [Adnoddau](#)
- [Sefydliad a Gweithlu](#)

**Cyfarfodydd y Pwyllgor** – Yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23, cynhaliodd y Pwyllgor 5 cyfarfod ffurfiol ac, yn ogystal â'i adroddiadau monitro rheolaidd, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys:-

- Monitro Absenoldeb Salwch;

- Gweledigaeth ar gyfer Cam Nesaf Rhaglen Drawsnewid y Cyngor;
- Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/34 – 2025/26;
- Y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd (Cronfa'r Cyngor): 2023/24-2027/28;
- Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023-24;
- Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Drafft 2023-24.

Yn ogystal â'r adroddiadau a ystyriwyd yn y cyfarfodydd ffurfiol, dosbarthwyd adroddiadau diweddar a gwybodaeth i'r Pwyllgor drwy e-bost, yn unol â chais y Pwyllgor.

**Adolygiad Gorchwyl a Gorffen** – Ni chynhaliodd y Pwyllgor Adolygiad Gorchwyl a Gorffen yn ystod 2022/23. Rhoddir ystyriaeth i bynciau eraill y gellid ymchwilio iddynt ymhellach yn ystod 2023/24.

**Ymweliadau Safle** – Oherwydd y cyfyngiadau Covid-19 parhaus, nid oedd y Pwyllgor yn gallu cynnal unrhyw ymweliadau safle yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23. Rhoddir ystyriaeth i bynciau eraill y gellid ymchwilio iddynt ymhellach yn ystod 2023/24.

**Sesiynau Datblygu** – Cynhaliodd y Pwyllgor y sesiwn ddatblygu benodol i'r gwasanaeth ganlynol yn ystod 2022/23:-

- Rheoli Presenoldeb

Hefyd gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i fynychu sesiynau datblygu a drefnwyd ar gyfer yr holl aelodau, a gellir dod o hyd i'r manylion ar dudalen 11.

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar gyllideb refeniw 2022/23 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

## Y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg

Mae 19 o aelodau gan y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg, ac mae pump ohonynt yn aelodau cyfetholedig. Dyma'r unig Bwyllgor Craffu, sydd ag aelodau cyfetholedig ac maent yn cynrychioli'r canlynol:-

- Cynrychiolydd y Rhiant-lywodraethwyr ar gyfer Ardal 1 – Dinefwr
- Cynrychiolydd y Rhiant-lywodraethwyr ar gyfer Ardal 2 – Caerfyrddin
- Cynrychiolydd y Rhiant-lywodraethwyr ar gyfer Ardal 3 – Llanelli
- Cynrychiolydd yr Eglwys Gatholig Rufeinig
- Cynrychiolydd yr Eglwys yng Nghymru

Mae'r Pwyllgor yn gyfrifol am graffu ar y Cabinet ac, yn benodol, ar Bortffolio canlynol y Cabinet a'r meysydd gwasanaeth perthnasol:-

- [Addysg a'r Iaith Gymraeg](#)

**Cyfarfodydd y Pwyllgor** – Yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23, cynhaliodd y Pwyllgor 5 cyfarfod ffurfiol ac, yn ogystal â'i adroddiadau monitro rheolaidd, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys:-

- Cynllun Cyfiawnder Ieuencid Sir Gaerfyrddin 2022/23;
- Y Cwricwlwm i Gymru a'r Cymorth a Ddarperir i Ysgolion;

- Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26;
- Trawsnewid i Wneud Cynnydd, gan gynnwys Cyllidebau Ysgol;
- Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Drafft 2023-24;
- Polisi ar Ddyfarnu Grantiau a'r Gymraeg;
- Strategaeth Hybu'r Iaith Gymraeg 2023-2028;
- Gwerthuso Arolygiadau Estyn ar draws Ysgolion, Unedau Cyfeirio Disgyblion a Lleoliadau Arbenigol yn Sir Gaerfyrddin.

Yn ogystal â'r adroddiadau a ystyriwyd yn y cyfarfodydd ffurfiol, dosbarthwyd adroddiadau diweddar a gwybodaeth i'r Pwyllgor drwy e-bost, yn unol â chais y Pwyllgor.

**Adolygiad Gorchwyl a Gorffen** – Ni chynhaliodd y Pwyllgor Adolygiad Gorchwyl a Gorffen yn ystod 2022/23.

**Ymweliadau Safle** – Oherwydd effaith barhaus y pandemig coronafeirws, barnwyd nad oedd yn briodol cynnal ymweliadau safle yn ystod blwyddyn y cyngor. Fodd bynnag, cyflwynwyd strwythur amgen, ar ffurf sesiynau ymgysylltu ag ysgolion ar-lein a hybrid, fel mesur dros dro i alluogi'r Pwyllgor i barhau â'i swyddogaeth gwerthuso a gwella ysgolion.

**Sesiynau Datblygu** – Ni chynhaliodd y Pwyllgor y sesiynau datblygu penodol i'r gwasanaeth canlynol yn ystod 2022/23:-

- Hunanwerthuso a Data Ysgolion;
- Cyflwyniad i'r Broses Graffu;
- Adolygiad Ôl-16;
- Rhaglen Moderneiddio Addysg (3 sesiwn ar wahân).

Hefyd gwahoddiwyd aelodau'r Pwyllgor i fynychu sesiynau datblygu a drefnwyd ar gyfer yr holl aelodau, a gellir dod o hyd i'r manylion ar dudalen 11.

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar gyllideb refeniw 2022/23 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

## Y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae gan y Pwyllgor Craffu - Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol 14 o Aelodau ac mae'n gyfrifol am graffu ar y Cabinet ac, yn benodol, ar Bortffolios canlynol y Cabinet a'u meysydd gwasanaeth perthnasol:-

- [Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol](#)

**Cyfarfodydd y Pwyllgor** – Yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23, cynhaliodd y Pwyllgor 4 cyfarfod ffurfiol ac, yn ogystal â'i adroddiadau monitro rheolaidd, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys:-

- Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol 2021/22;
- Strategaeth Dementia Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru;
- Cynllun Rheoli Cyfiawnder Ieuencid 2022/23;
- Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24-2025/26;
- Diweddariad Strategaeth Gofal Cartref;



- Strategaeth Eiriolaeth Oedolion Ranbarthol;
- Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Drafft 2023-24;
- Cyflwyniad gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda mewn cysylltiad â'r Adroddiad Adolygu Allanol, a gyhoeddwyd yn ddiweddar, ar yr Achosion o TB yn ardal Llwynhendy, Llanelli;
- Diweddariad Perfformiad Gofal Cartref;
- Adolygiad Gorchwyl a Gorffen ar Unigrwydd yn Sir Gaerfyrddin - Adroddiad Diweddar;
- Adroddiad Blynyddol ar Ddiogelu Oedolion a Threfniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid 2021/22.

Yn ogystal â'r adroddiadau a ystyriwyd yn y cyfarfodydd ffurfiol, dosbarthwyd adroddiadau diweddar a gwybodaeth i'r Pwyllgor drwy e-bost, yn unol â chais y Pwyllgor.

**Adolygiad Gorchwyl a Gorffen** – Cytunodd y Pwyllgor i gynnal Adolygiad Gorchwyl a Gorffen ar ordewdra ymhlith plant yn Sir Gaerfyrddin, sef "Dechrau Egnïol ac Iach". Bydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn ceisio cwblhau cwmpas y Grŵp i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor ym mis Gorffennaf 2024.

**Ymweliadau Safle** – Aeth y Pwyllgor ar ymweliad safle ym mis Tachwedd fel cyflwyniad i Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Oedolion a'r Gwasanaethau Integredig.

**Sesiynau Datblygu** - Cynhaliodd y Pwyllgor y sesiwn ddatblygu benodol i'r gwasanaeth ganlynol yn ystod 2022/23:-

- Camddefnyddio Sylweddau – (sesiwn ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd)

Hefyd gwahoddwyd aelodau'r Pwyllgor i fynychu sesiynau datblygu a drefnwyd ar gyfer yr holl aelodau, a gellir dod o hyd i'r manylion ar dudalen 11.

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar gyllideb referniw 2022/23 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

## Y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd

Mae gan y Pwyllgor Craffu Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd 13 o aelodau ac mae'n gyfrifol am graffu ar y Cabinet ac, yn benodol, ar Bortffolios canlynol y Cabinet a'u priod feysydd gwasanaeth:-

- [Gwasanaethau Trafnidiaeth, Gwastraff a Seilwaith](#)
- [Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio a Chynaliadwyedd](#)

**Cyfarfodydd y Pwyllgor** – Yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23, cynhaliodd y Cyngor 7 cyfarfod ffurfiol ac, yn ogystal â'i adroddiadau monitro rheolaidd, bu'r Pwyllgor yn ystyried adroddiadau ar amrywiaeth eang o bynciau, gan gynnwys:-

- Adolygiad o Flaengynllun Deddf yr Amgylchedd Cyngor Sir Caerfyrddin 2020-2023;
- Adroddiad Cynnydd y Cynllun Carbon Sero Net;
- Adroddiad Datganiad Blynyddol 2022 y Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd;
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Ansawdd Aer;

- Ystyried Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus Ychwanegol ar gyfer Gorchmynion Cŵn Sir Gaerfyrddin;
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Strategaeth Wastraff;
- Strategaeth Seilwaith Gwefru Cerbydau Trydan;
- Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2023/24 – 2025/26;
- Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd;
- Deddfwriaeth Terfyn Cyflymder 20mya Llywodraeth Cymru;
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Strategaeth Farchogaeth;
- Strategaeth Coed a Choetir 2023-2028;
- Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Lefelau Ffosffadau mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afonol Gwarchoddedig;
- Cynllun Noddi Cylchfannau;
- Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol Drafft 2023-24;
- Cynllun Rheoli Strategol Glanhau Strydoedd 2023;
- Cynllun Busnes CWM Environmental Ltd 2022-23 ac Adroddiad Cynnydd Hanner Blwyddyn.

Yn ogystal â'r adroddiadau a ystyriwyd yn y cyfarfodydd ffurfiol, dosbarthwyd adroddiadau diweddarau a gwybodaeth i'r Pwyllgor drwy e-bost, yn unol â chais y Pwyllgor.

**Adolygiad Gorchwyl a Gorffen** – Yn dilyn awgrym gan Gyngor Cymuned Llandyfaelog, sefydlodd y Pwyllgor Grŵp Gorchwyl a Gorffen i adolygu'r gwaith o reoli tipio anghyfreithlon yn Sir Gaerfyrddin. Disgwylir i'r adolygiad gael ei gwblhau ar ddiwedd haf 2023.

**Ymweliadau Safle** – Oherwydd y cyfyngiadau Covid-19 parhaus, nid oedd y Pwyllgor yn gallu cynnal unrhyw ymweliadau safle yn ystod blwyddyn y cyngor 2022/23. Rhoddir ystyriaeth i bynciau eraill y gellid ymchwilio iddynt ymhellach yn ystod 2023/24.

**Sesiynau Datblygu** – Ni chynhaliodd y Pwyllgor y sesiynau datblygu penodol i'r gwasanaeth canlynol yn ystod 2022/23:-

- Strategaeth Ansawdd yr Amgylchedd Lleol;
- Llifogydd;
- Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd a'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch Newid Deddfwriaeth Terfyn Cyflymder Llywodraeth Cymru (20mya);
- Cadwraeth a'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun peilot i reoli tir ar gyfer pryfed peillio yn Sir Gaerfyrddin;
- Gwastraff;
- Diweddariad ar Strategaeth ynghylch Camddefnyddio Cyffuriau ac Alcohol y Bwrdd Cynllunio Ardal;
- Camddefnyddio Sylweddau (sesiwn ar y cyd â'r Pwyllgor Craffu Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol).

Hefyd gwahoddiwyd aelodau'r Pwyllgor i fynychu sesiynau datblygu a drefnwyd ar gyfer yr holl aelodau, a gellir dod o hyd i'r manylion ar dudalen 11.

Yn ogystal â'r uchod, cynhaliwyd sawl seminar cyllideb yn ystod mis Ionawr fel rhan o broses ymgynghori'r Cyngor ar gyllideb refeniw 2022/23 a'r rhaglen gyfalaf bum mlynedd.

## Gweithgareddau Eraill yn ystod 2022/23

### Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu

Mae Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn cwrdd fel arfer bob chwarter i drafod materion sy'n ymwneud â'r swyddogaeth graffu. Ffurfiwyd y Fforwm yn 2004 ac fe'i cadeirir gan Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol, sydd hefyd yn 'Hyrwyddwr Craffu' i'r Cyngor. Yn ystod 2022/23 cyfarfu'r Fforwm ar dri achlysur, ac un ohonynt oedd cyfarfod gydag Archwilio Cymru ar ei Adolygiad Dilynol: Trosolwg a Chraffu - Addas ar gyfer y dyfodol? Cyngor Sir Caerfyrddin a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2022.

### Sesiynau Datblygu Aelodau

Cynhaliwyd y seminarau/sesiynau datblygu canlynol i aelodau yn ystod 2022/23, a chafodd yr holl aelodau eu gwahodd iddynt:-

- Cyflwyniad a throsolwg o sut i ddefnyddio Zoom;
- Cyflwyniad a throsolwg o mod.gov;
- Côt Ymddygiad, Moeseg, Safonau, Cyfrifoldebau a Dyletswyddau Cyfreithiol;
- Cyflwyniad i Gyngor Sir Caerfyrddin a Lansio'r Rhaglen Sefydlu;
- Materion Cyfansoddiadol a Pharatoi ar gyfer Cyfarfodydd;
- Cyllid Llywodraeth Leol;
- Rheoleiddwyr Allanol;
- Y Broses Graffu yn Sir Gaerfyrddin;
- Newid yn yr Hinsawdd, Lliniaru a Datgarboneiddio;
- Cynllunio;
- Cydraddoldeb ac Amrywiaeth;
- Llythrennedd Carbon;
- Diogelwch Personol a Hunanofal, Rheoli Straen, Gwytnwch Personol, a Chydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith;
- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol;
- Seiberddiogelwch;
- Cyflwyniad i Farchnata a'r Cyfryngau;
- Y Lluoedd Arfog;
- Polisi Cwynion;
- Trawsnewid i Wneud Cynnydd;
- Cynlluniau Argyfwng;
- Deddfwriaeth Arafu Traffig;
- Cwmnïau sy'n eiddo i'r Cyngor;
- Cytundebau Cyfreithiol Adran 106;
- Fframwaith Rheoli Perfformiad y Cyngor;
- Adolygiad o'r Rhaglen Moderneiddio Addysg;
- Newidiadau Gwastraff yn y Dyfodol;
- Hyfforddiant Cronfa Bensiwn Dyfed;
- Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu;
- Ymholiadau gan Aelodau;
- Gweithdy ynghylch y Strategaeth Gorfforaethol;
- Sesiwn Briffio ynghylch Atgyweiriadau Tai;
- Sesiwn Briffio ynghylch Ardaloedd Cadwraeth.

Yn ogystal, cynhaliwyd nifer o seminarau adrannol ynghylch y gyllideb.

## **Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth**

Mae Grŵp Cynghorwyr Craffu Partneriaeth yn grŵp rhanbarthol sy'n cynnwys Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion yr holl Bwyllgorau Craffu Addysg ledled consortiwm Partneriaeth. Nod y Grŵp yw sicrhau bod craffu cyson ledled y rhanbarth ar faterion sydd o fewn maes gorchwyl Partneriaeth. Mae'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn i drafod eitemau Partneriaeth a manteisir hefyd ar y cyfle i ystyried eitemau eraill sydd o ddiddordeb cyffredin ym maes addysg. Cynhelir y cyfarfodydd ar sail rota rhwng yr Awdurdodau Lleol sy'n ffurfio Partneriaeth. Mae Cadeirydd newydd i bob Grŵp ac fel rheol ef neu hi yw Cadeirydd pwyllgor yr Awdurdod Lleol lle y cynhelir y Grŵp. Mae cyfarfodydd blaenorol wedi bod yn gynhyrchiol ac ystyria Estyn y Grŵp yn gryfder i'r Consortiwm. Caiff y cyfarfodydd eu gweinyddu gan Dîm Craffu Dinas a Sir Abertawe. Aeth Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg i un cyfarfod ac aeth yr Is-Gadeirydd i'r ddau gyfarfod a gynhaliwyd yn ystod 2022/23, ac roedd y ddau gyfarfod wedi cael eu cynnal o bell.

## **Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Bae Abertawe**

Mae Cyd-bwyllgor Craffu Bargen Ddinesig Bae Abertawe yn bwyllgor craffu rhanbarthol sy'n cynnwys 12 aelod anweithredol o bedwar Awdurdod Cyfansoddol Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Sefydlwyd y Cyd-bwyllgor Craffu ym mis Gorffennaf 2018 i adolygu a chraffu ar Gyd-bwyllgor Bargen Ddinesig Bae Abertawe. Nod y Cyd-bwyllgor Craffu yw sicrhau mwy o atebolrwydd cyhoeddus o ran penderfyniadau a wneir gan y Cyd-bwyllgor ac unrhyw un o'i is-bwyllgorau a chyrrff cysylltiedig. Mae hyn yn ategu gwaith craffu Awdurdodau Lleol ar brosiectau unigol y Fargen Ddinesig sy'n rhan o'u maes gorchwyl. Cynhelir y Cyd-bwyllgor Craffu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot. Mae'r Cyd-bwyllgor Craffu yn cwrdd bob chwarter. Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf gan Gyngor Sir Caerfyrddin ym mis Tachwedd 2018. Mae tri aelod o Gyngor Sir Caerfyrddin yn aelodau o'r Cyd-bwyllgor Craffu, gan gynnwys yr Hyrwyddwr Craffu. Cynhaliwyd pum cyfarfod yn ystod blwyddyn y cyngor 22/23.

## **Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru**

Cafodd Cyd-bwyllgor Corfforaethol De-orllewin Cymru ei sefydlu'n ffurfiol ym mis Ionawr 2022, ac mae'n cwmpasu ardaloedd Awdurdodau Lleol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro ac Abertawe. Bydd y Pwyllgor yn gwella'r gwaith o gynllunio, cydlynu a chyflawni trafndiaeth yn rhanbarthol, cynllunio defnydd tir, datblygu economaidd ac ynni.

Mae'r Cyd-bwyllgor Corfforaethol wedi sefydlu Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu. Mae tri aelod anweithredol o Gyngor Sir Caerfyrddin wedi cael eu penodi i'r ddau Is-bwyllgor. Cyfarfu'r Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio unwaith yn ystod y flwyddyn galendr a chyfarfu'r Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu bedair gwaith dros flwyddyn y cyngor.

Cynhelir yr Is-bwyllgor Craffu gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot a chynhelir yr Is-bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gan Gyngor Sir Penfro.

## **Edrych i'r dyfodol - 2023/24**

Rhaid i bob Pwyllgor Craffu ddatblygu a chyhoeddi Blaengynllun Gwaith ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod ac adroddiad blynyddol sy'n amlinellu gwaith a chanlyniadau'r flwyddyn flaenorol. Mae'r holl adroddiadau blynyddol ar gyfer 2022/23 wedi'u cwblhau a'u cymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu perthnasol.

Mae Erthygl 6.2 o Gyfansoddiad y Cyngor yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl Bwyllgorau Craffu baratoi adroddiad blynyddol sy'n egluro gweithgareddau'r Pwyllgor dros y flwyddyn flaenorol. Fel rhan o'i adolygiad a gynhaliodd ym mis Gorffennaf 2022, canfu Archwilio Cymru er bod yr adroddiadau blynyddol a baratowyd ar gyfer 2020-21 yn cyfeirio at rai enghreifftiau cyfyngedig

o ganlyniadau, roedd yr adroddiadau yn gofnod yn bennaf o'r gwaith a wnaed yn hytrach nag asesiad o'u heffeithiolrwydd neu eu heffaith. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adborth hwn a budd dull sy'n canolbwyntio'n fwy ar ganlyniadau'n cael ei gyflwyno ar gyfer Adroddiadau Blynyddol 2023-24.

Ar ddechrau pob blwyddyn y cyngor, bydd pob Pwyllgor Craffu yn nodi pynciau i'w hystyried yn ystod y flwyddyn, *yn penderfynu ynghylch pa adroddiadau o Flaengynllun Gwaith y Cabinet y maent am eu gweld yn dod ger eu bron cyn gwneud penderfyniad a defnyddio'r 'Ddogfen Porth' Ddemocrataidd i flaenoriaethu llwyth gwaith.* Yn ogystal, mae sesiwn cynllunio'r Blaengynllun Gwaith a'r cyfarfodydd rheolaidd i ddiweddarau'r cynllun yn rhoi cyfle i'r aelodau ystyried Sesiynau Datblygu Aelodau posibl a phynciau craffu y gellid ymchwilio iddynt ymhellach. Mae'r adroddiadau blynyddol a'r Blaengynlluniau Gwaith ar gael i'w gweld ar wefan y Cyngor.

Mae'r Cyngor yn parhau i wynebu pwysau cyllidebol difrifol ac mae angen iddo barhau i nodi a chyflawni hyd yn oed rhagor o arbedion ariannol ac arbedion effeithlonrwydd. Un o lwyddiannau allweddol y Cyngor fyddai cynnal a chyflwyno gwelliannau i wasanaethau ac, ar yr un pryd, bodloni'r targedau gofynnol o ran arbedion. Bydd y Pwyllgorau Craffu'n parhau i gyfrannu a herio mewn modd adeiladol er mwyn cynorthwyo'r Cyngor i oresgyn yr heriau hyn.

Byddid yn parhau i graffu ar bolisiâu, cynlluniau a pherfformiadau allweddol, a'u monitro. Mae polisiâu a chynlluniau cyffredinol y Cyngor yn cynnwys y canlynol: yr Adroddiad Blynyddol a'r Cynllun Gwella, yr Amcanion Llesiant, y Cynllun Heneiddio'n Dda a'r Strategaeth Gorfforaethol. Mae'r polisi, strategaeth a pherfformiad corfforaethol yn dod o fewn maes gorchwyl y Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol. Fodd bynnag, mae cynlluniau ac amcanion o'r fath hefyd yn pontio rhwng meysydd craffu eraill. Lle bo'n briodol, bydd yr holl Bwyllgorau Craffu yn ystyried elfennau o'r cynlluniau a'r polisiâu sy'n berthnasol i'w meysydd gorchwyl. Ceisir dod o hyd i atebion arloesol i leihau dyblygu a gwastraff, megis gwneud mwy o ddefnydd o waith cydbwyllgorau.

Dyma feysydd allweddol eraill y bydd y Pwyllgorau'n rhoi sylw iddynt:-

**Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio** – Polisi Dyraniadau Cymdeithasol Brys – Monitro; Cynllun Cymhelliant i Denantiaid; Y Polisi ynghylch Taliadau am Wasanaethau; Cymhwyso Bwriadoldeb i Angen Blaenoriaethol (Gorchymyn Digartrefedd); Defnyddiau Canol Tref Amgen; Cynllun Busnes 2024-27 y Cyfrif Refeniw Tai; Canllawiau Cynllunio Atodol – Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 - 2033; Ffyniant Bro / Cronfa Ffyniant Gyffredin - Diweddariad; Cynnig Addysg Awyr Agored Amgen; Cynlluniau Busnes Adrannol; Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 hyd at 2026/27.

**Cynlluniau Busnes Corfforaethol** – Cynlluniau Busnes Adrannol; Adroddiad Blynyddol ynghylch Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodaeth 2022/2023; Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 hyd at 2026/27; Y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd 2024/25-2028/29; Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024/25.

**Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg** – Adroddiad Blynyddol Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (WESP); Adolygiad ôl-Covid o Bresenoldeb ac Ymddygiad Disgyblion; Canlyniad arolygiad Estyn o Gyngor Sir Caerfyrddin; Y wybodaeth ddiweddaraf am Adolygiad Estyn o'r Ddarpariaeth Cymraeg i Oedolion; Y wybodaeth ddiweddaraf am y Sefyllfa Bresennol ynghylch Polisi Derbyniadau ar gyfer Addysg Amser Llawn i blant 4 oed (Polisi Plant sy'n Codi'n 4 oed); Darpariaeth y Gwasanaeth Cerdd i Ysgolion; Y wybodaeth ddiweddaraf am Recriwtio a Staffio mewn Ysgolion; Adolygiad o



Drefniadau Staff Cyflenwi yn Sir Gaerfyrddin; Cynlluniau Cyflawni Is-adrannol; Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 hyd at 2026/27; Y wybodaeth ddiweddaraf am y Cynnig Gofal Plant 30 awr yn Sir Gaerfyrddin; Diweddariad Cynnydd ar Gyflwyno Prydau Ysgol am Ddim yn Sir Gaerfyrddin; Y wybodaeth ddiweddaraf am ADY.

**Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol** – Diweddariad Gofal Cartref; System Iechyd a Gofal Gorllewin Cymru: Pa Mor Bell, Pa Mor Gyflym?; Adroddiad Blynyddol Drafft Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol 22/23; Cynllun Cyfiawnder Ieuencid; Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol 10 mlynedd (Ar ôl Ymgynghori); Adroddiad Diogelu Blynyddol; Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 hyd at 2026/27.

**Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd** – Parcio am Ddim; Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus (Atal Baeddu gan Gŵn); Cynllun Strategol ynghylch Rheoli ein Tir ar gyfer Pryfed Peillio yn Sir Gaerfyrddin; Y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth Wastraff; Adolygiad ynghylch Gwastraff Swmpus; Datganiad Blynyddol Cynllun Rheoli Asedau Priffyrdd - y wybodaeth ddiweddaraf; Strategaeth Toiledau Lleol; Gorfodi Rheolau Cynllunio; Rheoli Plâu; Fflyd Drydan; Gorchymyn Diogelu Mannau Agored Cyhoeddus (Ymddygiad Gwrthgymdeithasol a Throseddau sy'n gysylltiedig ag Alcohol a Chyffuriau); Ymgynghori ynghylch Strategaeth Cyllideb Refeniw 2024/25 hyd at 2026/27; Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd; Blaengynllun Deddf yr Amgylchedd 23 Ionawr hyd at Ragfyr 25; Strategaeth Farchogaeth; Hawliau Tramwy Cyhoeddus.

## Gwella / Hunanasesu

Fel rhan o'i Adolygiad Dilynol ynghylch Trosolwg a Chraffu "Addas ar gyfer y dyfodol", canfu Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru bellach) nad oedd yr Awdurdod wedi cwrdd ag un o'i gynigion ar gyfer gwella eto a rhoddodd drefniadau ar waith i asesu effeithiolrwydd ac effaith craffu.

Yn dilyn y cynigion ar gyfer gwella a argymhellwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru (Archwilio Cymru bellach) ac er mwyn cryfhau trefniadau craffu'r Awdurdod ac fel sail i werthuso llwyddiant, cynhaliwyd hunanasesiad o'r Gwasanaeth Craffu ar ddiwedd 2019, ac ystyriwyd y canlyniadau gan Fforwm Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn gynnar yn 2020. Oherwydd y diffyg ymatebion (14 o'r 74 o aelodau), cytunodd y Fforwm i gynnal arolwg arall ddiwedd 2020. Yn anffodus, ni wnaed hyn gan fod materion yn ymwneud â Covid wedi cael blaenoriaeth a'r cyfarfodydd yn cael eu cynnal yn rhithwir. Cytunwyd y dylid cynnal arolwg arall yn ystod gwanwyn 2023 pan fyddai'r Strwythur Craffu newydd a'r dull Craffu cyn gwneud penderfyniadau newydd wedi cael cyfnod o 6 mis i ymsefydlu.

## Cefnogi'r Swyddogaeth Graffu

Mae'r cymorth a roddir i'r swyddogaeth graffu'n cael ei ddarparu gan yr Uned Gwasanaethau Democraidd yn yr Is-adran Gweinyddiaeth a'r Gyfraith yn Adran y Prif Weithredwr. Mae'r cymorth a ddarperir yn cynnwys:-

- Darparu cymorth a chynghor cyfansoddiadol i Bwyllgorau Craffu'r Cyngor ac i aelodau'r Pwyllgorau hynny yn ogystal â llunio cofnodion eu cyfarfodydd a sicrhau bod materion sy'n codi o'r cyfarfodydd hynny yn cael eu gweithredu;

- Rhoi cymorth a chynghor mewn perthynas â swyddogaethau Pwyllgorau Craffu'r Cyngor i aelodau gweithredol ac anweithredol y Cyngor a'i Swyddogion;
- Rheoli datblygiad strategol y swyddogaeth Graffu yn Sir Gaerfyrddin trwy ymwneud â rhwydweithiau a mentrau Craffu cenedlaethol a rhanbarthol, cefnogi Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Fforwm Craffu, a Fforwm Bwrdd Gweithredol y Cadeiryddion a'r Is-gadeiryddion Craffu;
- Rhoi cynghor a chymorth yn y gwaith o weithredu gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 wrth i'r canllawiau gael eu cyhoeddi;
- Rheoli cydlynid a datblygiad y blaengynlluniau gwaith Craffu ar y cyd â'r aelodau Craffu;
- Rheoli a chydlynu gwaith adolygu'r swyddogaeth Graffu, gan gynnwys gweithredu Grwpiau Gorchwyl a Gorffen ym maes craffu, awdurdodi adroddiadau ar y cyd â'r grwpiau, a chynorthwyo i weithredu a monitro'r adolygiadau a gwblhawyd;
- Rheoli Rhaglen Datblygu Aelodau'r Pwyllgor Craffu
- Anfon yr agendâu ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor Craffu o leiaf 4 diwrnod gwaith cyn y cyfarfod.

I gael rhagor o wybodaeth am graffu yn Sir Gaerfyrddin, gan gynnwys Blaengynlluniau Gwaith, adroddiadau Gorchwyl a Gorffen ac adroddiadau blynyddol, ewch i wefan y Cyngor Sir: [www.sirgar.llyw.cymru/craffu](http://www.sirgar.llyw.cymru/craffu)

I gysylltu â'r Uned Gwasanaethau Democrataidd, ffoniwch 01267 224028 neu anfonwch neges e-bost: [craffu@sirgar.gov.uk](mailto:craffu@sirgar.gov.uk)

## Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu yn ystod 2022/23

### Cymunedau, Cartrefi ac Adfywio

Y Cynghorydd Deryk Cundy  
Cadeirydd  
(Y Bynea)  
Llafur Cymru

Y Cynghorydd Betsan Jones  
Is-gadeirydd  
(Betws)  
Plaid Cymru

### Perfformiad ac Adnoddau Corfforaethol

Y Cynghorydd Giles Morgan  
Cadeirydd  
(Dyffryn y Swistir)  
Annibynnol

Y Cynghorydd Kim Broom  
Is-gadeirydd  
(Trimsaran)  
Plaid Cymru

### Addysg, Pobl Ifanc a'r Gymraeg

Y Cynghorydd Carys Jones  
Cadeirydd  
(Sanclêr gyda Llansteffan)  
Plaid Cymru

Y Cynghorydd Sue Allen  
Is-gadeirydd  
(Hendy-gwyn ar Daf)  
Annibynnol

### Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Y Cynghorydd Hazel Evans  
Cadeirydd  
(Cenarth a Llangeler)  
Plaid Cymru

Y Cynghorydd. Louvain Roberts  
Is-gadeirydd  
(Glanymôr)  
Annibynnol

### Lle, Cynaliadwyedd a Newid Hinsawdd

Y Cynghorydd Kevin Madge  
Cadeirydd  
(y Garnant)  
Llafur Cymru

Y Cynghorydd Karen Davies  
Is-gadeirydd  
(Saron)  
Plaid Cymru